



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb i adolygiad thematig Estyn o addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach



ISBN digidol 978 1 4734 9471 8
© Hawlfraint y Goron Ebrill 2017
WG31842

Teitl yr adroddiad:

Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach

Manylion yr adroddiad:

Comisiynwyd yr adroddiad gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Is-adran y Gymraeg i ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am y canlynol:

- archwilio pa mor effeithiol y mae colegau addysg bellach yn sicrhau parhad a dilynant mewn profiadau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog;
- arfarnu effeithiolrwydd modelau cwricwlaidd a dulliau dysgu sydd ar waith mewn colegau addysg bellach;
- nodi a rhannu arfer da mewn addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Crynodeb o'r prif gasgliadau:

Mae'r adroddiad yn cydnabod bod cynnydd bach wedi bod yn nifer y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn colegau addysg bellach, ond nid oes digon o ddysgwyr yn parhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Lle caiff gwersi eu cyflwyno'n Gymraeg neu'n ddwyieithog mae'r rhan fwyaf o'r addysgu'n dda ac mae gan ddysgwyr sgiliau Cymraeg neu ddwyieithog llafar da yn bennaf. Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr yn dewis peidio â chyflwyno aseiniadau yn Gymraeg.

Mewn lleiafrif o golegau, mae gan uwch arweinwyr weledigaeth gadarn ynglŷn â hyrwyddo'r Gymraeg ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Yn yr achosion hyn, mae cynlluniau strategol yn cynnwys targedau a strategaethau i wella darpariaeth. Mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol ond gellir gwneud mwy i ddatblygu sgiliau dwyieithog y staff.

Mae Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru a hyfforddiant a ariennir gan grant Sgiliaith wedi sicrhau cymorth da i athrawon.

Argymhellion ar gyfer Colegau Addysg Bellach:**Argymhelliad 1**

Gweithio'n fwy effeithiol gydag ysgolion uwchradd i nodi dysgwyr sy'n siarad Cymraeg cyn iddynt drosglwyddo i'r coleg a sicrhau bod yr holl wybodaeth am gymorth sydd ei hangen arnynt gan ddysgwyr er mwyn eu galluogi i ddewis i barhau â'u dysgu yn Gymraeg.

Argymhelliad 2:

Cryfhau cynlluniau strategol Cymraeg er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn enwedig yn y meysydd galwedigaethol y mae galw cynyddol am fedrau dwyieithog ynddynt gan gyflogwyr.

Argymhelliad 3:

Sicrhau bod digon o staff ar gael ym mhob coleg i ddarparu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a chefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wellau'u Cymraeg.

Argymhelliad 4:

Gwella hyfforddiant staff ar y fethodoleg addysgu'n ddwyieithog, a sicrhau bod digon o adnoddau a deunyddiau dysgu ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Argymhelliad 5:

Sicrhau bod gwybodaeth am allu iaith dysgwyr, cymwysterau blaenorol yn Gymraeg a gweithgareddau dysgu wedi'u cofnodi'n gywir yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r argymhellion hyn ar gyfer colegau addysg bellach ac rydym yn cytuno â'u cynnwys. Bydd colegau'n cael eu hannog i ddatblygu cynlluniau strategol Cymraeg cadarn fel y gallant gynllunio eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn effeithiol i alluogi pobl ifanc i barhau â'u haddysg a'u hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan golegau gyfraniad pwysig i'w wneud at y gwaith o gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg dysgwr yn unol â tharged Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn yn dosbarthu'r adroddiad i'r colegau addysg bellach ac yn eu hysbysu am yr argymhellion.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru**Argymhelliad 6:**

Helpu colegau i wella ansawdd cynlluniau strategol iaith Gymraeg, gan gynnwys defnyddio data i osod targedau heriol er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â'r argymhelliad mewn egwyddor a bydd yn darparu canllawiau drwy'r cylch cynllunio a chyllido ôl-16 blynyddol a gyflawnir gan golegau. Bydd yn gallu cyflwyno cerrig milltir ar gyfer monitro data i sicrhau bod y broses o fewnbynnu data'n gwella. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am wella ansawdd y cynlluniau strategol, dogfennau sefydliadau addysg bellach yw'r rhain a dim ond cynghori ar eu cynnwys a'u hansawdd y gall Llywodraeth Cymru ei wneud. Byddwn yn gweithio gyda rhwydweithiau colegau i annog rhannu arfer da yn y gwaith o gynllunio a gosod targedau.

Argymhelliad 7:

Cynnal adolygiadau rheolaidd o'r cynnydd a wneir gan golegau yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau strategol.

Argymhelliad 8:

Gwella meysydd casglu data, a'u canllawiau cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod

colegau'n cofnodi gwybodaeth gywir am alluoedd ieithyddol dysgwyr ac iaith dysgu ac asesu yn ôl gweithgaredd.

Argymhelliad 9:

Datblygu strategaeth genedlaethol i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o fanteision dewis parhau i ddysgu yn Gymraeg pan fyddant yn trosglwyddo o'r ysgol i'r coleg.

Argymhelliad 10:

Sicrhau bod digon o adnoddau a deunyddiau dysgu ar gyfer cyrsiau cyfrwng Gymraeg neu ddwyieithog.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion 7–10:

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhellion hyn.

Cynhelir cyfarfodydd cynllunio gyda cholegau i drafod cynlluniau'r dyfodol ac i fonitro perfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith wedi dechrau i wella ansawdd data a bydd cerrig milltir penodol yn cael eu hystyried i alluogi colegau i gynllunio darpariaeth cyfrwng Gymraeg a dwyieithog yn effeithiol. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu strategaeth gyfathrebu a marchnata genedlaethol fel rhan o'r Strategaeth Iaith Gymraeg newydd sydd i'w chyhoeddi yn haf 2017. Bydd yn cynnwys gwahanol elfennau sy'n targedu pobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o fanteision sgiliau dwyieithog.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ariannu a chomisiynu adnoddau i gefnogi'r gwaith o addysgu a dysgu cyrsiau cyfrwng Gymraeg a dwyieithog. Mae proses o nodi anghenion ar waith a bydd yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn cyflawni gofynion y sector addysg bellach yn effeithiol. Fel rhan o'i gylch gwaith gofynnwyd i Grŵp Adolygu'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol ystyried a ddylid ehangu cylch gwaith y Coleg i'r sector ôl-16 (addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith), ac os felly, darparu opsiynau posibl ar sut i fwrw ymlaen â hyn. Disgwylir i'r Grŵp gyflwyno'i adroddiad a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ystod 2017.

Manylion cyhoeddi:

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 24 Ebrill 2017 neu wedi hynny, a bydd ar gael ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk.